# Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

**2013 dccc 1**

## RHAN 2

SAFONAU

### PENNOD 1

YMYRRYD YM MATERION RHEDEG YSGOLION A GYNHELIR

*Y seiliau dros ymyrryd*

**2 Y seiliau dros ymyrryd**

At ddibenion y Bennod hon, mae'r seiliau dros ymyrryd ym materion rhedeg ysgol a gynhelir fel a ganlyn—

SAIL 1 - Mae safonau perfformiad disgyblion yn yr ysgol yn annerbyniol o isel.

At y diben hwn, mae safonau perfformiad disgyblion yn isel os ydynt yn isel drwy gyfeirio at unrhyw un neu fwy o'r canlynol—

(a) y safonau y gellid yn rhesymol ddisgwyl o dan yr holl amgylchiadau i'r disgyblion eu cyrraedd;

(b) pan fo'n berthnasol, y safonau a gyrhaeddwyd ganddynt o'r blaen;

(c) y safonau a gyrhaeddwyd gan ddisgyblion mewn ysgolion cyffelyb.

SAIL 2 -Mae methiant wedi bod yn y ffordd y mae'r ysgol yn cael ei rheoli neu ei llywodraethu.

SAIL 3 -Mae ymddygiad disgyblion yn yr ysgol neu unrhyw gamau a gymerwyd gan y disgyblion hynny neu eu rhieni yn rhagfarnu'n ddifrifol, neu'n debyg o ragfarnu'n ddifrifol, addysg unrhyw ddisgyblion yn yr ysgol.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, Croes Bennawd: Y seiliau dros ymyrryd yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 10 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

SAIL 4 -Mae diogelwch disgyblion neu staff yr ysgol o dan fygythiad (p'un ai drwy fethiant disgyblu neu fel arall).

SAIL 5 -Mae'r corff llywodraethu neu'r pennaeth wedi methu, neu'n debyg o fethu, â chydymffurfio â dyletswydd o dan y Deddfau Addysg.

SAIL 6 - Mae'r corff llywodraethu neu'r pennaeth wedi gweithredu, neu'n bwriadu gweithredu, yn afresymol wrth arfer unrhyw rai o'i swyddogaethau o dan y Deddfau Addysg.

SAIL 7 - Mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ("y Prif Arolygydd") wedi rhoi hysbysiad o dan adran 37(2) o Ddeddf Addysg 2005 i ddweud bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol a bod yr hysbysiad hwnnw heb ei ddisodli—

(a) gan y Prif Arolygydd wrth iddo roi hysbysiad o dan yr adran honno i ddweud ei bod yn ofynnol i fesurau arbennig gael eu cymryd mewn perthynas â'r ysgol, neu

(b) gan berson sy'n gwneud arolygiad dilynol ac yn llunio adroddiad sy'n datgan nad oes angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol mwyach yn ei farn ef.

SAIL 8 - Mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru wedi rhoi hysbysiad o dan adran 37(2) o Ddeddf Addysg 2005 i ddweud ei bod yn ofynnol i fesurau arbennig gael eu cymryd mewn perthynas â'r ysgol ac nad yw'r hysbysiad hwnnw wedi ei ddisodli gan berson sy'n gwneud arolygiad dilynol ac yn llunio adroddiad sy'n datgan nad oes angen mesurau arbennig ar yr ysgol mwyach yn ei farn ef.

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** Rhn. 2 Pnd. 1 wedi ei eithrio (20.2.2014) gan 2010 c. 15, **a. 87(4)** (fel y'i mewnosodwyd gan Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (anaw 1), a. 100(4), **Atod. 5 para. 11(3)**; O.S. 2014/178, ergl. 2(f) (ynghyd ag **ergl. 3**))

**C2** Rhn. 2 Pnd. 1: rhoddwyd pŵer i addasu (20.2.2014) gan 2011 nawm 7 a. 0018(01)(a) (wedi ei amnewid (C.) gan Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (anaw 1), a. 100(4), **Atod. 5 para. 13(3)(a)**; O.S. 2014/178, ergl. 2(f) (ynghyd ag **ergl. 3**))

**C3** Rhn. 2 Pnd. 1 wedi ei addasu (20.2.2014) gan 1998 c. 30, **a. 19(12)** (fel e'i amnewid (C.) gan Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (anaw 1), a. 100(4), **Atod. 5 para. 3**; O.S. 2014/178, ergl. 2(f) (ynghyd ag **ergl. 3**))

**C4** Rhn. 2 Pnd. 1 wedi ei addasu (20.2.2014) gan 1988 c. 40, a. 219(3A) (fel y'i mewnosodwyd (C.) gan Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (anaw 1), a. 100(4), **Atod. 5 para. 1(3)**; O.S. 2014/178, ergl. 2(f) (ynghyd ag ergl. 3))

**C5** Rhn. 2 Pnd. 1 wedi ei addasu (20.2.2014) gan 2002 c. 32, a. 34(7) (fel y'i diwygiwyd gan Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (anaw 1), a. 100(4), **Atod. 5 para. 6(2)**; O.S. 2014/178, ergl. 2(f) (ynghyd ag ergl. 3))

**C6** Rhn. 2 Pnd. 1 cymhwyswyd (ynghyd â addasiadau) (20.2.2014) gan 2010 c. 15, a. 87(3)(a) (fel y'i mewnosodwyd gan Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (anaw 1), a. 100(4), **Atod. 5 para. 11(3)**; O.S. 2014/178, ergl. 2(f) (ynghyd ag ergl. 3))

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 2 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I2** A. 2 mewn grym ar 20.2.2014 gan O.S. 2014/178, **ergl. 2(a)** (ynghyd ag ergl. 3)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, Croes Bennawd: Y seiliau dros ymyrryd yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 10 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- Pt. 3 Ch. 3A inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(7)
- s. 1(9A) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(2)(a)
- s. 38(2)(ca) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(3)(a)
- s. 38(5)(ca) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(3)(b)
- s. 39(1)(ca) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(4)
- Sch. 2 para. 19(2)(c)(i) word inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(12)(b)